# Vandetanib ar gyfer trin canser y thyroid medwlaidd

12 Rhagfyr 2018

Nid yw Vandetanib (Caprelsa) fel arfer ar gael ar y GIG i drin canser y thyroid medwlaidd ffyrnig neu symptomatig ymhlith oedolion sydd â chlefyd na ellir ei dynnu'n llwyr, sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig.

Dylai eich meddyg siarad â chi am yr opsiynau triniaeth eraill. Os ydych eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau i'w gymryd nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Butterfly Thyroid Cancer Trust, 01207 545 469
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3193-4

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights